

Dosbarthiad Tir Amaethyddol

Cwestiynau Cyffredin

Mai 2021.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CWESTIYNAU CEFNDIR CYFFREDINOL.....	
BETH YW'R SYSTEM DOSBARTHU TIR AMAETHYDDOL (ALC)?	2
BETH YW TIR AMAETHYDDOL?	2
BETH YW DIBEN YR ALC?	2
BETH YW'R TIR AMAETHYDDOL GORAU A MWYAF HYBLYG?	2
SUT MAE'R SYSTEM DOSBARTHU TIR AMAETHYDDOL YN GRADDIO TIR?	2
BETH MAE'R GRADDAU GWAHANOL YN EU GOLYGU?	3
DISGRIFIAD CYFFREDINOL O'R GRADDAU DOSBARTHU TIR AMAETHYDDOL	3
I WELD DISGRIFIAD LLAWN O'R GRADDAU, DARLLENWCH ATODIAD1.....	3
ALL TIR FOD YN DIR GRADD UCHEL HEB GNYDAU ARNO NEU OS YW'N CAEL EI BORI?	3
ALL ARFERION FFERMIO NEWID GRADD YR ALC?	3
ALL GWRTAITH WELLA'R RADD?	3
BETH ALLA I EI DYFU AR FY NHIR? (PA GNYDAU SY'N ADDAS)	4
YDY GRADD YR ALC YN EFFEITHIO AR BRIS Y TIR?	4
CWESTIYNAU AM RADDAU A MAPIAU	4
BETH YW GRADD FY NHIR?	4
PAM MAE MAPIAU GWAHANOL YN DANGOS GRADDAU GWAHANOL AR GYFER YR UN LLEFYDD?	4
BETH YW'R 'CANLLAWIAU DIWYGIEDIG'?	4
CWESTIYNAU'N CODI O'R AROLYGON	5
NID OES AROLWG MANWL WEDI'I GYNNAL AR FY NHIR, A OES ANGEN CYNNAL AROLWG CAE?	5
BETH MAE AROLWG CAE MANWL YN EI OLYGU?	5
A FEDRWCH CHI ARGYMELL AROLYGYDD ALC?	5
A OES ANGEN CYNNAL AROLYGON ALC AR DIR TREFOL?	5
A YW LLYWODRAETH CYMRU'N CYNNAL AROLYGON (CAE MANWL) AR GYFER DOSBARTHU TIR AMAETHYDDOL?	5
A YW NATURAL ENGLAND YN CYNNAL AROLYGON ALC?	5
PA DDWYSEDD SAMPLU DDYLWN I EI DDEFNYDDIO YN FY AROLWG CAEAU ALC?	6
PA DDATA AM YR HINSAWDD SY'N CAEL EU DEFNYDDIO I DDOSBARTHU TIR AMAETHYDDOL?	6
RWY'N YMGYNGHORYDD/GWYDDONYDD PRIDD SY'N CYNNAL AROLWG SAFLE MANWL AR GYFER ALC AC MAE'R TIR YN CAEL EI DDYFRHAU. A DDYLWN YSTYRIED HYN WRTH ROI GRADD?	6
ATODIAD 1: DOSBARTHAD TIR AMAETHYDDOL (ALC)	7
DISGRIFIAD O'R GRADDAU A'R IS-RADDAU	7
<i>Gradd 1: Tir Amaethyddol o Ansawdd Rhagorol</i>	<i>7</i>
<i>Gradd 2: Tir Amaethyddol o Ansawdd Da lawn</i>	<i>7</i>
<i>Gradd 3: Tir o Ansawdd Da i Gymedrol</i>	<i>7</i>
<i>Is-radd 3a: Tir Amaethyddol o Ansawdd Da.....</i>	<i>7</i>
<i>Is-radd 3b: Tir Amaethyddol o Ansawdd Cymedrol</i>	<i>7</i>
<i>Gradd 2: Tir Amaethyddol o Ansawdd Gwael</i>	<i>7</i>
<i>Gradd 5: Tir Amaethyddol o Ansawdd Gwael lawn</i>	<i>8</i>

Cwestiynau Cefndir Cyffredinol

Beth yw'r system Dosbarthu Tir Amaethyddol (ALC)?

Mae'r system Dosbarthu Tir Amaethyddol (ALC) yn ddull o asesu ansawdd tir ffermio yng Nghymru a Lloegr. Mae'r system yn categoreiddio tir yn bum gradd, gydag 1 yn cynrychioli'r tir gorau a 5 y tir gwaethaf ac mae Gradd 3 wedi'i rhannu'n ddwy Is-radd 3a ac Is-radd 3b. Mae'r dull a ddefnyddir yn cael ei ddisgrifio yn [The Agricultural Land Classification of England and Wales Revised Guidelines and Criteria for Grading the Quality of Agricultural Land \(MAFF 1988\)](#) neu'r 'Llyfr Glas' fel y'i gelwir weithiau.

Beth yw tir amaethyddol?

Mae tir amaethyddol yn golygu tir y gellir ei ddefnyddio at ddibenion amaethyddol (e.e. i dyfu cnydau). Nid yw'r ffordd y mae'r tir yn cael ei ddefnyddio yn effeithio ar ei radd nac ar ei botensial amaethyddol. Lle gwelir bod potensial amaethyddol y tir wedi'i gollu am byth (e.e. trwy godi tai arno), ni ddylid ei ystyried mwyach yn dir amaethyddol. At ddibenion cynllunio, rydyn ni'n eich cynghori i gysylltu â'ch Awdurdod Cynllunio Lleol i gadarnhau statws y tir. Gweler hefyd: [All tir fod yn dir gradd uchel heb gnydau arno neu os yw'n cael ei bori?](#)

Beth yw diben yr ALC?

Mae'r ALC yn cael ei ddefnyddio i raddio ansawdd tir amaethyddol er mwyn i bobl allu gwneud penderfyniadau gwybodus ynghylch sut i'w ddefnyddio o fewn y system gynllunio. Mae'r systemau cynllunio yng Nghymru a Lloegr yn ceisio gwarchod y tir amaethyddol 'Gorau a Mwyaf Hyblyg (BMV)'. I weld polisiau Cymru ynghylch y tir 'gorau a mwyaf hyblyg', ewch i'r tudalennau am yr ALC ar wefan Llywodraeth Cymru: [Gwefan Llywodraeth Cymru - Dosbarthiad Tir Amaethyddol](#). Fe welwch dudalen am bolisiau **Lloegr** ar y tir gorau a mwyaf hyblyg yn y Fframwaith Polisi Cynllunio Cenedlaethol.

Beth yw'r tir amaethyddol Gorau a Mwyaf Hyblyg?

Yn ôl y polisi cynllunio cenedlaethol, y Tir Gorau a Mwyaf Hyblyg yw'r tir sy'n perthyn i raddau 1, 2 a 3a, sef tir da i ardderchog sy'n gallu darparu orau'r bwyd a'r cnydau di-fwyd yn y dyfodol.

Sut mae'r system Dosbarthu Tir Amaethyddol yn graddio tir?

Mae'r graddau'n seiliedig ar gyfyngiadau ffisegol tymor hir y tir at bwrpas amaethyddol, fel **hinsawdd** (tymheredd, glawiad, y cyfeiriad y mae'n ei wynebu, pa mor agored yw'r tir a'r perygl o rew), y **safle** (graddiant, micro-dirwedd a'r peryg o lifogydd) a **phridd** (gwead, adeiladwaith, dyfnder, faint o gerrig a'r nodweddion cemegol na ellir eu newid), a'r berthynas rhwng y ffactorau hyn, fel gwlypter y pridd, ei duedd i sychu ac erydiad. Mae angen cynnal arolygon i gasglu data am y safle a'r pridd. Disgrifir y dull graddio diweddaraf yn: [The Agricultural Land Classification of England and Wales Revised Guidelines and Criteria for Grading the Quality of Agricultural Land \(MAFF 1988\)](#)

Beth mae'r graddau gwahanol yn eu golygu?

Disgrifiad Cyffredinol o'r Graddau Dosbarthu Tir Amaethyddol

Gradd a'r cod lliw safonol	Disgrifiad o'r tir amaethyddol	Manylion
1	Ardderchog	Cyfyngiadau mân iawn ar ei ddefnydd amaethyddol, os o gwbl. Gellir tyfu amrywiaeth eang o gnydau amaethyddol a garddwrol. Cynhyrchiol a chyson.
2	Da iawn	Mân gyfyngiadau o ran cynhyrchiant, trin y tir neu gynaeafu. Amrywiaeth eang o gnydau ond cyfyngiadau ar gnydau sy'n fawr eu gofyn (e.e. llysiâu a gynaeafir yn y gaeaf). Cynhyrchiant yn uchel ond yn is na Gradd 1.
3 (wedi'i rannu)	Da i gymedrol	Cyfyngiadau cymedrol o ran y dewis o gnydau, amseriad a dull trin, cynaeafu neu lefel y cynhyrchiant. Cynhyrchiant yn is ac yn fwy amrywiol na Gradd 2.
3a	Da	Cynhyrchiant ystod gyfyng o gnydau â (e.e. ydau) yn gymedrol i uchel neu gynhyrchiant porfa, rêp had olew, tatws, betys siwgr a chnydau garddwrol sy'n llai eu gofyn yn gymedrol.
3b	Cymedrol	Cynhyrchiant ydau a phorfa yn gymedrol. Cynhyrchiant cnydau eraill yn is. Cynhyrchiant porfa ar gyfer ei phori/chynaeafu yn uchel.
4	Gwael	Cyfyngiadau difrifol sy'n cyfyngu ar y dewis o gnydau a/neu gynhyrchiant. Porfa gan fwyaf ond cnydau âr weithiau (ydau a chnydau pori). Cynhyrchiant yn amrywio'n fawr. Cynhwysir tir âr sydd â thuedd i sychu.
5	Gwael iawn	Cyfyngiadau difrifol sy'n ei gyfyngu i borfa barhaol neu borfa arw heblaw am gnydau pori arloesi.

I weld disgrifiad llawn o'r graddau, darllenwch [Atodiad 1](#).

All tir fod yn dir gradd uchel heb gnydau arno neu os yw'n cael ei bori?

Nid yw'r ffordd y mae'r tir yn cael ei ddefnyddio yn effeithio ar radd y tir na'i botensial amaethyddol tymor hir. Dewis economaidd a rheoli i reolwr y tir yw sut i ddefnyddio'r tir. Mae'r ALC yn disgrifio beth all y tir ei wneud, nid sut mae'n cael ei ddefnyddio.

All arferion ffermio newid gradd yr ALC?

Ni wnaiff gwaith rheoli amaethyddol arferol effeithio ar radd y tir. Mae'r radd yn seiliedig ar gyfyngiadau ffisegol a chemegol tymor hir y tir at ddibenion amaethyddol. Nid yw rheolaeth heddiw na ddoe yn effeithio ar y radd, na pha mor ddwys y mae'n cael ei ffermio. Mae potensial i wella gradd yr ALC ond dim ond trwy waith mawr iawn a drud, lawer fwy na gwaith amaethyddol cyffredin e.e. cynlluniau draenio newydd mawr, systemau amddiffyn newydd rhag llifogydd neu gwastatáu tir anwastad iawn. Mae'n annhebygol iawn hefyd y gallai'r radd gwmpo oherwydd esgeulustod neu reolaeth wael.

All gwrtiaith wella'r radd?

Mae gwasgaru gwrtiaith neu galch yn rhan o'r drefn rheoli arferol ar dir amaethyddol ac nid yw'n effeithio ar y radd. Nid yw lefelau gwrtiaith arferol yn y pridd yn cael unrhyw effaith ar radd yr ALC. Mae'r cyfyngiadau cemegol yn yr ALC yn disgrifio problemau mawr tymor hir nad oes modd eu datrys yn rhwydd. Gallent gynnwys asidedd eithafol, halltrwydd a phresenoldeb elfennau gwenwynig.

Beth alla i ei dyfu ar fy nhir? (pa gnydau sy'n addas)

Mae nifer o ffactorau yn effeithio ar ba mor addas yw'r tir ar gyfer rhai cnydau. Nid gradd yr ALC sy'n penderfynu pa gnydau sy'n gallu tyfu ar y tir, ond mae'n cyfleu'r math o gnydau sy'n addas i dir o ansawdd a hyblygrwydd penodol. Rhestrir cnydau nodweddiadol yn Atodiad 1.

Ydy gradd yr ALC yn effeithio ar bris y tir?

Cafodd system yr ALC ei datblygu i hwyluso penderfyniadau cynllunio. Nid oedd byth yn fwriad ei defnyddio'r i brisio tir, ac ni ddylai fyth gael ei ddefnyddio i'r pwrpas hwnnw.

Cwestiynau am Raddau a Mapiau

Beth yw gradd fy nhir?

Yr unig ffordd i bennu gradd amaethyddol y tir yn gywir yw trwy gynnal arolwg manwl ar lefel cae (arolwg cae), yn unol â chanllawiau 1988 yr ALC: [Beth mae arolwg cae manwl yn ei olygu?](#)

Yng **Nghymru**, mae Llywodraeth Cymru yn dal gwybodaeth arolygon maes manwl ar gyfer ardaloedd penodol, ynghyd a'r map Rhagfynegi Categoriâu Tir Amaerthyddol: <http://lle.gov.wales/map/alc2>. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â LQAS@llyw.cymru.

Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am Raddau ALC yn Lloegr i'w gweld ar www.Magic.gov.uk/ (y tab tirweddau). Ceir arolygon manwl (Haen yr ALC ar ôl 1988 ar wefan Magic) ar gyfer rhai ardaloedd. Gweler hefyd: Beth am fapiau strategol sy'n dangos ble mae'r tir gorau a mwyaf hyblyg a ddisgrifir yn TIN049 yn fwyaf tebygol o fod?

Pam mae mapiau gwahanol yn dangos graddau gwahanol ar gyfer yr un llefydd?

O 1976, dechreuwyd seilio asesiadau'r ALC yn fwy ar gaeau a safleoedd penodol, yn rhannol oherwydd diffygion y mapiau Dros Dro. Ar 1 Ionawr 1989, cafodd system raddio bresennol yr ALC ei chyflwyno: (*The Revised guidelines and criteria for grading the quality of agricultural land*: MAFF 1988). Y canllawiau hyn sy'n darparu'r graddau mwyaf dibynadwy ac fel arfer, ystyrir eu bod yn well nag arolygon cynharach. Mewn rhai ardaloedd, fe fydd sawl lefel wahanol o fanylder o ddata. Mae priddoedd yn amrywio a gall gradd y tir newid o fewn ardal fach. Mae'r gallu i fapio'r newid hwn yn dibynnu ar fanylder yr arolwg ac ar raddfa'r mapiau cysylltiedig. Bydd yr arolwg manylaf fel arfer yn rhoi'r radd fwyaf dibynadwy.

Beth yw'r 'Canllawiau Diwygiedig'?

Cafodd system yr ALC ei dyfeisio a'i chyflwyno yn y 1960au ac mae Adroddiad Technegol 11 (MAFF, 1966: Technical Report 11, Agricultural Land Classification of England and Wales) yn disgrifio'r system genedlaethol. Yn dilyn adolygiad o'r system, cafodd is-raniadau o Radd 3 (3a, 3b a 3c) eu cyhoeddi ym 1976 ac mae Adroddiad Technegol 11/1 (MAFF, 1976: Technical Report 11/1, Agricultural Land Classification of England and Wales. The definition and identification of Sub-grades within Grade 3) yn esbonio'r newid.

Cyhoeddwyd y canllawiau mwyaf newydd a diweddar ym 1988 "*The Revised guidelines and criteria for grading the quality of agricultural land*" gan ddod i rym ar 1 Ionawr 1989. Y nod wrth ddatblygu a phrofi canllawiau diwygiedig 1988 oedd diweddarau'r system heb newid y cysyniadau gwreiddiol. Mae'n creu dwy ran i Radd 3: Is-radd 3a ac Is-radd 3b, gyda'r olaf yn gyfuniad o'r hen Is-raddau 3b a 3c. O ganlyniad, cyfeirir weithiau at arolygon modern fel arolygon 'post 1988'. Bydd unrhyw arolygon gafodd eu cynnal gan ddefnyddio'r hen ganllawiau yn gorfod cael eu hailasesu gan ddefnyddio'r amodau diweddaraf.

Cwestiynau'n Codi o'r Arolygon

Nid oes arolwg manwl wedi'i gynnal ar fy nhir, a oes angen cynnal arolwg cae?

Mae'n dibynnu pam eich bod am wybod pa radd yw'ch tir. Os at ddibenion cynllunio, dylech holi'r awdurdod cynllunio lleol am gyngor.

Beth mae arolwg cae manwl yn ei olygu?

Mae arolygon Dosbarthu Tir Amaethyddol (ALC), yn ôl y [Canllawiau](#) a gyhoeddwyd, yn cael eu cynnal gan arolygwyr caeau gan ddefnyddio taradr pridd i archwilio pridd hyd at ddyfnder o 1.2 metr. Mae hyn fel arfer yn golygu un tylliad fesul hectar, ynghyd ag ambell bydew bas (fel arfer â llaw) i archwilio proffil y pridd mewn manau nodweddiadol i gael gwybodaeth fanylach am amodau'r pridd hyd at ddyfnder o 1.2 metr. Cyfunir yr wybodaeth honno â data'r hinsawdd a phynciau eraill i gynhyrchu map ac adroddiad ALC, a fyddai fel arfer yn cynnwys proffil y pridd unigol a disgrifiad o'r pydew, ac esboniad ysgrifenedig i gefnogi rhoi'r radd. Cynhyrchir mapiau ALC ar sail map Arolwg Ordnans ar raddfeydd amrywiol o 1:10,000 ar gyfer gwaith manwl i arolygon 'reconnaissance' ar 1:50,000. Mae'n bwysig bod arolygon ALC yn cael eu cynnal gan arolygydd ALC i sicrhau bod y dystiolaeth yn gywir ac yn gadarn i helpu penderfynwyr cynllunio.

A fedrwyd chi argymhell arolygydd ALC?

Mae Sefydliad y Gwyddonwyr Pridd Proffesiynol (corff proffesiynol Cymdeithas Gwyddorau Pridd Prydain) yn cadw cofrestr o arolygwyr pridd cymwys sydd â phrofiad o gynnal arolygon Dosbarthu Tir. www.soils.org.uk. Mae cyrff proffesiynol eraill hefyd yn cadw rhestr o'u haelodau sydd wedi cynnal gwaith ALC. Mae'n bwysig bod arolygon ALC yn cael eu cwblhau gan arolygydd ALC profiadol i sicrhau bod y dystiolaeth yn gywir ac yn gadarn i helpu penderfynwyr cynllunio.

A oes angen cynnal arolygon ALC ar dir trefol?

Mae tir trefol yn cael ei ddangos weithiau ar fapiau'r ALC. Ni chaiff arolygon eu cynnal ohono gan nad oes fawr o bosiblwydd y caiff ei droi'n dir amaethyddol. Cewch weld diffiniad llawn o dir trefol a chategoriâu anamaethyddol eraill yn Atodiad 1. Dylech gysylltu â'ch awdurdod cynllunio lleol am gyngor a oes angen cynnal arolwg ALC i gefnogi cais cynllunio.

A yw Llywodraeth Cymru'n cynnal arolygon (cae manwl) ar gyfer Dosbarthu Tir Amaethyddol?

Ydy. Mae Llywodraeth Cymru'n cynnal arolygon cae manwl ar gyfer Dosbarthu Tir Amaethyddol. Mae'n eu cynnal fel arfer fel ymateb i geisiadau gan Awdurdodau Cynllunio Lleol ar safleoedd neu ardaloedd penodol ar ymylon trefi sy'n cael eu hystyried ar gyfer eu datblygu. Mae gan Lywodraeth Cymru hefyd gopïau o arolygon ALC manwl unigol a gynhaliwyd ganddynt, yn ogystal â'r rheini a gynhaliwyd gan Swyddfa Gymreig neu Lywodraeth y Cynulliad. Hefyd, mae Llywodraeth Cymru yn darparu gwasanaeth dilysu arolygon ar gyfer Awdurdodau Cynllunio Lleol gan roi asesiad technegol o'r cofnodion a gyflwynwyd a'u galluogi i ystyried ansawdd y tir fel rhan o'r broses penderfynu.

A yw Natural England yn cynnal arolygon ALC?

Mae Natural England yn cynnig cyngor i Awdurdodau Cynllunio Lleol ar faterion ynghylch yr ALC ond nid yw'n cynnal arolygon cae'r ALC. Mae gan Natural England gopïau o arolygon manwl a gynhaliwyd ar gyfer Dosbarthu Tir Amaethyddol (ALC) gan y cyn Weinidog Amaeth, Pysgodfeydd a Bwyd tan ddiwedd y 1990au. Cawsant eu cynnal gan fwyaf fel ymateb i geisiadau gan Awdurdodau Cynllunio Lleol ar safleoedd neu ardaloedd penodol ar ymylon trefi oedd yn cael eu hystyried ar gyfer eu datblygu; ni chafodd yr holl dir amaethyddol ei arolygu ar y pryd. Nid oes mwyach raglen genedlaethol i arolygu'r holl diroedd yn fanwl ac ers diwedd y 1990au, nid yw'r Llywodraeth yn cynnal unrhyw arolygon caeau manwl ei hun. Mae datblygwyr, Awdurdodau Cynllunio Lleol, perchenogion tir ac eraill yn talu ymgynghorwyr

arbenigol i gynnal arolygon manwl i Ddosbarthu Tir Amaethyddol ar gyfer cynlluniau lleol a chynigion datblygu eraill.

Pa ddwysedd samplu ddylwn i ei ddefnyddio yn fy arolwg caeau ALC?

Nid oes rheol bendant ynghylch faint o samplau sydd eu hangen i gynnal arolwg o gae; ond mae'r rhan fwyaf o arolygwyr profiadol yn cynnal 1 sampl bob hectar (ar grid 100m yr Arolwg Ordnans). Mae pydewau pridd hefyd yn ddefnyddiol i gael rhagor o wybodaeth am adeiladwaith y pridd, mandylledd, faint o gerrig sydd ynndo, haenau'r graig ac ati er mwyn gallu cadarnhau ar y safle bod y radd gywir wedi'i rhoi. Mae'n anodd dweud cyn dechrau cynnal arolwg o'r cae faint o bydewau y dylid eu palu. Fel arfer, gwneir un pydew ar gyfer pob un o'r prif raddau neu fathau o bridd ar y safle, er efallai nid o reidrwydd ar gyfer pob uned o'r map. Dylid gadael y penderfyniad i'r arolygydd.

Mae arolygon ar y lefel fanwl hon yn golygu y gallai'r asesiad o'r pridd fod yn unol â [Cod Ymarfer Defra ar gyfer Defnydd Cynaliadwy o Briddoedd ar Safleoedd Adeiladu](#) ac yn ddigon manwl i ddefnyddwyr allu cyflwyno achos ynghylch ansawdd y tir mewn ymgynghoriad.

Gan ddibynnu ar y math o ddatblygiad, ei leoliad, ei faint, pwrpas yr arolwg, pa ddata ALC sydd ar gael ac ati, gellid cynnal arolygon llai manwl neu weithiau mwy manwl, ond rhaid gofyn i wyddonydd pridd neu ymgymwrwr arall sydd â phrofiad o gynnal arolygon ALC am ei gyngor arbenigol. Mae'r holl ddata a gofnodir mewn arolygon ALC yn cael eu gwneud at yr un safon (h.y. wrth gofnodi lliw, gwedd ac ati). Yr unig wahaniaeth mewn arolygon llai manwl yw bylchau'r grid, nid ansawdd na manylder y data a gesglir yn y manau a archwilir. Mae'n bwysig bod gan yr arolygydd brofiad o gynnal arolygon ALC er mwyn sicrhau bod y dystiolaeth yn gywir ac yn gadarn i helpu penderfynwyr cynllunio. Mae Cymdeithas Gwyddonwyr Pridd Prydain yn cynnal cyrsiau hyfforddi ac mae ganddi gynllun cymwyseddau **Working with Soil** sy'n ymdrin ag agweddau ar arolygon pridd a'r system ALC.

Pa ddata am yr hinsawdd sy'n cael eu defnyddio i Ddosbarthu Tir Amaethyddol?

Daw'r data diffiniol am yr hinsawdd sy'n cael eu defnyddio i asesu cyfyngiadau'r hinsawdd (a'r cyfyngiadau gwlyptter a sychder) o gyfres o setiau data sy'n seiliedig ar bwyntiau grid a grewyd yn unswydd at ddiben ALC (Swyddfa'r Tywydd 1989: Climatological Data for Agricultural Land Classification). Maen nhw'n darparu gwerthoedd cyfartalog tymor hir o'r newidion gofynnol ar grid 5km, ar gyfer Cymru a Lloegr yn gyfan. Ar gyfer safleoedd rhwng y pwyntiau grid, rhaid dehongli'r newidion hyn yn ôl lleoliad (cyfeirnod grid) ac uchder y safle.

Rwy'n ymgynghorydd/gwyddonydd pridd sy'n cynnal arolwg safle manwl ar gyfer ALC ac mae'r tir yn cael ei ddyfrhau. A ddylwn ystyried hyn wrth roi gradd?

Na ddylech. Cynghorwyd y dylid peidio â chynnwys dyfrhau yn yr asesiad mewn ymgynghoriad ar system yr ALC yn 1996.

ATODIAD 1: DOSBARTHIAD TIR AMAETHYDDOL (ALC)

Disgrifiad o'r Graddau a'r Is-raddau

Disgrifir graddau ac is-raddau'r ALC isod yn ôl y mathau o gyfyngiadau a welir, yr ystod gnydau nodweddiadol a lefel a chysondeb disgwylidig y cynhyrchiant. Yn ymarferol, diffinnir y graddau gan y nodweddion ffisegol. Mae'r disgrifiadau cyffredinol hyn yn seiliedig ar y canllaw graddio a therfynau'r ffactorau cyfyngu yn MAFF (1988) Agricultural Land Classification of England and Wales Revised Guidelines and Criteria for Grading the Quality of Agricultural Land.

Hefyd, disgrifir categorïau tir eraill sy'n cael eu defnyddio ar fapiau'r ALC.

Gradd 1: Tir Amaethyddol o Ansawdd Rhagorol

Tir heb fawr o gyfyngiadau arno, os o gwbl, o ran defnydd amaethyddol. Gellir tyfu amrywiaeth eang iawn o gnydau amaethyddol a garddwrol, gan gynnwys ffrwythau coed, ffrwythau meddal, cnydau salad a llysiau a gynaeefir yn y gaeaf. Mae lefelau cynhyrchiant yn uchel ac yn tueddu i amrywio llai nag ar dir o ansawdd is.

Gradd 2: Tir Amaethyddol o Ansawdd Da iawn

Tir â mân gyfyngiadau arno sy'n effeithio ar gynhyrchiant, yr hyn y gellir ei dyfu neu ar gynaeafu. Gellir tyfu amrywiaeth eang o gnydau amaethyddol a garddwrol fel arfer ond ambell waith ar dir o'r math hwn, ceir llai o hyblygrwydd oherwydd anawsterau wrth gynhyrchu'r cnydau mawr eu gofyn fel llysiau a gynaeefir yn y gaeaf a gwreiddgnydau â'r. Mae'r cynhyrchiant fel arfer yn uchel ond gall fod yn is neu fwy amrywiol na thir Gradd 1.

Gradd 3: Tir o Ansawdd Da i Gymedrol

Tir â chyfyngiadau cymedrol arno sy'n effeithio ar y dewis o gnydau, amseriad a dulliau trin, y cynaeafu a lefel y cynhyrchiant. Pan dyfir cnydau uwch eu gofyn, mae cynhyrchiant fel arfer yn is neu'n fwy amrywiol nag ar dir Gradd 1 neu Radd 2.

Is-radd 3a: Tir Amaethyddol o Ansawdd Da

Tir sy'n gallu cynhyrchu'n gyson swm cymedrol i uchel o ddewis bach o gnydau â'r, yn enwedig ydau neu swm cymedrol o amrywiaeth ehangach o gnydau gan gynnwys ydau, porfa, rêl had olew, tatws, betys siwgr a'r cnydau garddwrol sy'n llai eu gofyn.

Is-radd 3b: Tir Amaethyddol o Ansawdd Cymedrol

Tir sy'n gallu cynhyrchu swm cymedrol o ddewis bach o gnydau, yn enwedig ydau a phorfa neu swm is o amrywiaeth ehangach o gnydau neu swm mawr o borfa i'w phori neu ei chynaeafu y rhan fwyaf o'r flwyddyn.

Gradd 4: Tir Amaethyddol o Ansawdd Gwael

Tir â chyfyngiadau difrifol arno sy'n cyfyngu'n fawr ar yr amrywiaeth o gnydau a/neu'r cynhyrchiant. Mae'n addas yn bennaf ar gyfer porfa ac ambell gnwd â'r (e.e. ydau a chnydau pori) – bydd eu cynhyrchiant nhw'n amrywio. Lle bo'r hinsawdd yn wlyb, gallai cynhyrchiant porfa fod yn gymedrol i uchel ond gall fod yn anodd ei defnyddio. Mae'r radd yn cynnwys hefyd tir â'r sydd â thuedd i sychu.

Gradd 5: Tir Amaethyddol o Ansawdd Gwael lawn

Tir â chyfyngiadau difrifol sy'n cyfyngu'r defnydd i borfa barhaol neu borfa arw, ar wahân i ambell gnwd porthiant arloesi.

Disgrifiadau o gategoriâu tir eraill ar fapiau'r ALC

Trefol

Tir adeiledig neu 'galed', heb fawr o botensial y gallai gael ei adfer yn dir amaethyddol, gan gynnwys: tai, diwydiant, masnach, trafndiaeth, addysg, adeiladau crefyddol, mynwentydd. Hefyd, cyfleusterau chwaraeon ag iddynt wyneb galed, safleoedd carafanau parhaol a thir diffaith; pob math o dir diffaith gan gynnwys hen weithfeydd mwynau nad ydyn nhw'n debygol o gael eu hadfer heb grantiau tir diffaith.

Anamaethyddol

Dibenion 'meddal' lle gallai'r rhan fwyaf o'r tir gael ei adfer yn weddol rwydd yn dir amaethyddol, gan gynnwys: cyrsiau golff, tir parc preifat, mannau cyhoeddus agored, caeau chwarae, rhandiroedd a thir ag arwynebau meddal ar feysydd awyr. Hefyd, gweithfeydd mwynau a thomennydd sbwriel sydd ag amodau arnynt i'w hadfer ar ôl eu defnyddio.

Coetir

Gan gynnwys coetir masnachol ac anfasnachol. Gellir gwahaniaethu os oes angen rhwng coetir ar fferm a choetir nad yw ar fferm.

Adeiladau amaethyddol

Yn cynnwys yr ystod arferol o adeiladau amaethyddol yn ogystal ag adeiladau lled barhaol eraill fel tai gwydr. Gellir anwybyddu adeiladau dros dro (e.e. twneli polythene a godwyd ar gyfer wyna).

Dŵr agored

Gan gynnwys llynnoedd, pyllau ac afonydd gan ddibynnu ar raddfa'r map.

Tir sydd heb ei arolygu

Tir amaethyddol sydd heb ei arolygu. Lle bo'r defnydd tir yn cynnwys mwy nag un o'r mathau o orchudd tir uchod e.e. adeiladau ar leiniau mawr a lle bo graddfa'r map yn caniatáu, gellir dangos y mathau o orchudd ar wahân. Fel arall, y gorchudd mwyaf cyffredin a ddangosir.

Ffynhonnell: Adran 2: [MAFF \(1988\) Agricultural Land Classification of England and Wales Revised Guidelines and Criteria for Grading the Quality of Agricultural Land.](#)